

10:37

# Archwilio'r Cynulliad:

Deisebu'r Cynulliad

---

## Explore the Assembly:

Petitioning the Assembly

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.**

---

**The National Assembly for Wales is the democratically elected body that represents the interests of Wales and its people, makes laws for Wales and holds the Welsh Government to account.**

**©Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

---

**© National Assembly for Wales Commission Copyright 2015**

The text of this document may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is reproduced accurately and not used in a misleading or derogatory context. The material must be acknowledged as copyright of the National Assembly for Wales Commission and the title of the document specified.

# Croeso

---

## Welcome

Croeso i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Corff o 60 o Aelodau yw'r Cynulliad, a gaiff eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.

---

Welcome to the National Assembly for Wales. The National Assembly for Wales is made up of 60 Assembly Members elected by the people of Wales to represent them and their communities, make laws for Wales and to ensure the Welsh Government is doing its job properly.



# Deisebu'r Cynulliad

---

## Petitioning the Assembly

Mae'r broses ddeisebu'n galluogi pobl Cymru i ofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried unrhyw fater, problem neu gynnig y mae ganddo'r pŵer i wneud rhywbeth yn ei gylch.

Os oes unrhyw beth yr hoffech ei newid ynglŷn â bywyd yng Nghymru, neu ymgyrchu yn ei gylch, gallwch ddechrau deiseb i fynegi eich pryderon.

Cafodd y system ei sefydlu er mwyn galluogi'r cyhoedd sy'n teimlo'n gryf am fater i gasglu cefnogaeth a chyflwyno deiseb i'r Cynulliad mewn ffordd hygyrch ac ystyrlon.

---

The petitions process allows the people of Wales to ask the National Assembly to consider any issue, problem or proposal that it has the power to do something about.

If there is something about life in Wales that you would like to campaign about or try to change, you can start a petition to raise your concerns.

The system was set up to enable members of the public who feel strongly about an issue to gather support and submit a petition to the Assembly in a way that is accessible and meaningful.

## Y Pwyllgor Deisebau

---

### The Petitions Committee

Mae Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad yn ystyried pob deiseb dderbyniadwy sy'n cael ei chyflwyno.

Mae'r Pwyllgor Deisebau'n cynnwys pedwar Aelod Cynulliad, un o bob plaid yn y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor yn cytuno ar y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â deiseb. Nid yw'r Pwyllgor yn gallu gweithredu'r hyn y mae deiseb yn gofyn amdano na gwrthod y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, mae'n gallu dwyn y Llywodraeth a chyrrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gofyn am wybodaeth ganddynt a rhoi cyfle i ddeisebwyr gyflwyno eu hachos yn uniongyrchol i Aelodau'r Cynulliad.

---

The Assembly's Petitions Committee considers all admissible petitions that are submitted.

The Committee is made up of four Assembly Members, one from each party in the Assembly.

The Committee agrees what action should be taken on a petition. However, the Committee cannot implement what a petition calls for or overrule decisions made by the Welsh Government or other public bodies. However, it can hold the government and other decision makers to account, seek information from them and give petitioners the chance to make their case directly to Assembly Members.









## Eich deiseb

---

### Your petition

Mae'n rhaid i ddeisebau fodloni nifer fach o delerau ac amodau, a nodwyd gan y Cynulliad, er mwyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Deisebau. Gellir gweld y telerau a'r amodau hyn ar **[www.cynulliad.cymru/deisebau](http://www.cynulliad.cymru/deisebau)**. Un o'r prif amodau yw bod yn rhaid i'r ddeiseb ymwneud â'r pethau sydd gan Aelodau'r Cynulliad neu Weinidogion Cymru y pŵer i'w newid. Yn gyffredinol, mae hynny'n golygu bod yn rhaid iddo ymwneud â maes pwnc sydd wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, ond nid yw deisebau am weithredoedd awdurdodau lleol unigol yng Nghymru yn dderbyniadwy.

Cyn belled â bod y mater yr hoffech ei godi'n dod o fewn un o'r meysydd hyn ac yn bodloni'r telerau ac amodau eraill, gallwch ddechrau deiseb. Gall y tîm Deisebau eich helpu i sicrhau bod eich deiseb yn bodloni'r telerau ac amodau hyn cyn i chi ddechrau casglu llofnodion.

Gallwch gysylltu â'r tîm Deisebau trwy anfon e-bost at **[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)** neu drwy ffonio **0300 200 6565**.

---

Petitions must meet a small number of terms and conditions, set by the Assembly, for them to be considered by the Petitions Committee. These terms and conditions are available at **[www.assembly.wales/petitions](http://www.assembly.wales/petitions)**. One of the main conditions is that the petition must be about things that Assembly Members or Welsh Ministers have the power to change. Generally, this means it must be about a subject area that is devolved to the National Assembly, although petitions about the actions of individual local authorities in Wales are not admissible.

As long as the issue you would like to raise falls into one of these areas and meets the other terms and conditions, you can start a petition. The Petitions team can help you make sure that your petition meets these terms and conditions before you start collecting signatures.

You can contact the Petitions team by emailing **[SeneddPetitions@assembly.wales](mailto:SeneddPetitions@assembly.wales)** or calling **0300 200 6565**.

# Meysydd pwnc datganoledig

- Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid, planhigion a datblygu gwledig
- Henebion ac adeiladau hanesyddol
- Diwylliant
- Datblygu economaidd
- Addysg a hyfforddiant
- Yr amgylchedd
- Gwasanaethau tân ac achub a diogelwch rhag tân
- Bwyd
- Iechyd a gwasanaethau iechyd
- Priffyrdd a thrafnidiaeth
- Tai
- Llywodraeth leol (ond nid penderfyniadau awdurdodau lleol unigol)
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (yn bennaf, ei weinyddiaeth fewnol)
- Gweinyddiaeth gyhoeddus
- Lles cymdeithasol
- Chwaraeon a hamdden
- Twristiaeth
- Trethi wedi'u datganoli
- Cynllunio gwlad a thref
- Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd
- Y Gymraeg

## Devolved subject areas

- **Agriculture, forestry, animals, plants and rural development**
- **Ancient monuments and historic buildings**
- **Culture**
- **Economic development**
- **Education and training**
- **Environment**
- **Fire and rescue services and fire safety**
- **Food**
- **Health and health services**
- **Highways and transport**
- **Housing**
- **Local government (but not the decisions of individual local authorities)**
- **National Assembly for Wales (mostly its internal administration)**
- **Public administration**
- **Social welfare**
- **Sport and recreation**
- **Tourism**
- **Devolved taxes**
- **Town and country planning**
- **Water and flood defence**
- **Welsh language**



# Cychwyn

---

## Getting started

Y ffordd hawsaf o gyflwyno'ch cynnig yw drwy ein gwefan, **[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**. Rydym hefyd yn croesawu deisebau traddodiadol ar bapur. I'ch helpu i gychwyn, cysylltwch â'r tîm Deisebau i drafod geiriad eich deiseb. Byddwn yn cydweithio â chi er mwyn helpu i sicrhau y gall eich deiseb gael ei hystyried a byddwn yn egluro'r mathau o faterion na ellir eu hystyried. Rydym yn argymhell eich bod yn cysylltu â ni cyn dechrau casglu llofnodion.

---

The easiest way to submit your proposal is through our website, **[www.assembly.wales](http://www.assembly.wales)**. We also welcome traditional paper petitions. To help you get started, contact the Petitions team to discuss the wording of your petition. We'll work with you to help make sure that your petition can be considered and we'll explain the types of issues that cannot be considered. We recommend you contact us before you start collecting signatures.

# Casglu llofnodion

---

## Collecting signatures

Bydd angen i ddeisebau a gyflwynir gan unigolion gasglu o leiaf ddeg llofnod er mwyn i'r ddeiseb gael ei hystyried. Nid oes angen llofnodion ar ddeisebau a gyflwynir gan sefydliad, cymdeithas neu grŵp.

Gweler [www.cynulliad.cymru/deisebau](http://www.cynulliad.cymru/deisebau) am ragor o fanylion am gasglu llofnodion ar-lein.

Os na thrafodwyd geiriad eich deiseb gyda'r tîm Deisebau ymlaen llaw, bydd angen ei hasesu i sicrhau ei bod yn dderbyniadwy cyn iddi fynd ymhellach.

---

Petitions submitted by individuals will need to collect at least ten signatures for the petition to be considered. Petitions submitted by an organisation, association or group, do not require signatures.

See [www.assembly.wales/petitions](http://www.assembly.wales/petitions) for more details on collecting signatures online.

If the wording of your petition has not been discussed with the Petitions team beforehand, it will need to be assessed for admissibility before it goes any further.







## Cyflwyno'ch deiseb

---

### Presenting your petition

Ar ôl gorffen casglu llofnodion ar gyfer eich deiseb, gallwch ei chyflwyno'n ffurfiol i aelodau'r Pwyllgor Deisebau yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi gyfarfod ag aelodau'r Pwyllgor yn anffurfiol a sgwrsio â nhw am y mater. Mae hefyd yn gyfle i gael rhywfaint o gyhoeddusrwydd i'ch deiseb.

---

Once your petition has finished collecting signatures, you can present it to members of the Petitions Committee at the Senedd in Cardiff Bay. This provides you with an opportunity to meet Committee members informally and chat to them about the issue. It is also a chance to gather some publicity for your petition.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Anfonir y ddeiseb at y Pwyllgor, a gall gymryd nifer o gamau i symud eich deiseb ymlaen, gan gynnwys:

- gofyn am ragor o wybodaeth gan Weinidogion Cymru a chyrrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru;
- ceisio rhagor o wybodaeth gan Wasanaeth Ymchwil neu Wasanaeth Cyfreithiol y Cynulliad;
- gwahodd deisebwyr neu unrhyw gorff arall i gyflwyno tystiolaeth lafar (Nid yw hyn yn digwydd fel rheol tan o leiaf yr ail dro y bydd Pwyllgor yn trafod y ddeiseb. Ni chaiff pob deisebydd ei wahodd i roi tystiolaeth, a'r Pwyllgor fydd yn penderfynu pwy i'w gwahodd);
- cynnal ymchwiliad byr i'r mater;
- gofyn i bwyllgor arall ystyried y mater. Aelodau'r pwyllgor hwnnw fydd yn penderfynu a fydd y mater yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor ac ar ba ffurf y caiff ei ystyried.

Pan ddaw rhagor o wybodaeth i law, caiff y ddeiseb ei hystyried eto gan y Pwyllgor Deisebau. Aelodau'r Pwyllgor sy'n penderfynu pa gamau i'w cymryd yn wyneb y wybodaeth newydd hon. Byddwn yn cysylltu â chi cyn i'r Pwyllgor ystyried eich deiseb er mwyn rhoi gwybod i chi pryd y cynhelir y cyfarfod ac i ofyn eich barn ar y wybodaeth a gafwyd. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi am y canlyniadau yn dilyn y cyfarfod.

Gellir gweld trafodion yr holl gyfarfodydd pwyllgor ar-lein ar **[www.senedd.tv](http://www.senedd.tv)**.

## What happens next?

The petition goes to the Committee which can take a number of actions to progress it, including:

- seeking further information from Welsh Ministers and other decision makers in Wales;
- seeking further information from the Assembly's Research Service or Legal Service;
- inviting petitioners or any other organisation to present oral evidence (This does not usually happen until at least the second time the Committee considers a petition. Not all petitioners will be invited to give evidence, and it is up to the Committee to decide who to invite);
- conducting a short inquiry into the issue;
- asking another committee to consider the issue. Whether they then take up the issue is a decision for members of that committee.

Whenever further information is received, the Petitions Committee will consider the petition again. The Committee members decide what action to take in light of this new information. We'll get in touch with you before the Committee considers your petition to let you know when the meeting is taking place and to seek your views on the information received. We will also let you know the outcomes following the meeting.

All committee meetings can be viewed online at [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv).







# Cysylltwch

---

## Get in touch

Mae'r Cynulliad am glywed gennych chi. Pa un ai a yw'n fater sy'n effeithio ar eich tref neu bentref, neu'n fater sydd o bryder i'ch cymdeithas neu grŵp buddiant, gall deisebau eich helpu i roi gwybod i'r Cynulliad am y broblem.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cyflwyno deiseb, cysylltwch â ni ar **0300 200 6565** neu anfonwch e-bost at **[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)**.

Rydym hefyd yn hapus i'ch cyfarfod yn bersonol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

**[www.cynulliad.cymru/deisebau](http://www.cynulliad.cymru/deisebau)**

---

Now the Assembly wants to hear from you. Whether it's something that affects your town or village, or an issue that is of concern to your interest group or society, petitions can help you make it known to the Assembly.

If you are interested in submitting a petition, please contact us on **0300 200 6565** or email **[SeneddPetitions@assembly.wales](mailto:SeneddPetitions@assembly.wales)**.

We are also happy to meet you in person.

National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

**[www.assembly.wales/petitions](http://www.assembly.wales/petitions)**







## **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA

 **0300 200 6565**

 **cysylltu@cynulliad.cymru**

 **www.cynulliad.cymru**

---

## **National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA

 **0300 200 6565**

 **contact@assembly.wales**

 **www.assembly.wales**

